Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cadoc Sant

**Shaw Close**
**Llanrhymni**
**CF3 5NX**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Cadoc Sant

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Cadoc Sant |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | * |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Catholig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 336 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 255 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 45 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 41.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 5.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 19.2% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/01/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 07/10/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Cadoc Sant yn ysgol groesawgar a hapus lle mae arweinwyr a staff yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion ac yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn mwynhau eu dysgu ac yn ymddwyn yn eithriadol o dda.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a sicr. Mae hi wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ddiben moesol cadarn a gwerthoedd cadarnhaol. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu addysgu effeithiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn rhannu bwriadau dysgu yn dda ac yn darparu cyfarwyddiadau clir ar gyfer disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio technegau holi yn llwyddiannus i werthuso dealltwriaeth disgyblion neu symud y dysgu ymlaen. Maent yn galonogol i ddisgyblion ac yn eu cynorthwyo i fod yn ddysgwyr meddylgar a myfyriol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai o aelwydydd incwm isel a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau.

Mae perthnasoedd rhwng disgyblion yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae staff yn gwerthfawrogi pwysigrwydd hyn ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion hŷn weithio gyda disgyblion iau yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn eu helpu â medrau darllen a thynnu llun neu'n eu hannog i chwarae gemau ar y maes chwarae.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion, ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol mewn darllen ac ysgrifennu, ar y cyfan. Maent yn gwneud cynnydd arbennig o dda yn datblygu eu medrau llafaredd. Mae arweinwyr wedi nodi bod angen gwella cyfradd y cynnydd a wna disgyblion iau mewn llythrennedd. I ymateb i hynny, maent wedi addasu ymagweddau at addysgu ac wedi prynu adnoddau newydd.

At ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf yn y rhan fwyaf o feysydd. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau rhifedd, Cymraeg a digidol yn dda. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu meddwl creadigol o fewn y celfyddydau mynegiannol ac ym meysydd eraill y cwricwlwm wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae ardal chwarae yn yr awyr agored a adnewyddwyd yn ddiweddar yn cefnogi datblygiad corfforol y disgyblion ieuengaf yn llwyddiannus. Fodd bynnag, o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 2, megis dechrau datblygu y mae meysydd darpariaeth barhaus i gefnogi dysgu wedi'i ysgogi gan y plentyn, dan do ac yn yr awyr agored, fel ei gilydd.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Sicrhau bod y cwricwlwm yn cefnogi datblygiad effeithiol creadigrwydd disgyblion, yn cynnwys cyfleoedd i fod yn arloesol, datblygu eu syniadau eu hunain a mynegi eu hunain trwy'r celfyddydau

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu sylfaen ymhellach, yn cynnwys addysgu medrau llythrennedd cynnar, i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gynradd Cadoc Sant yn ysgol groesawgar a hapus lle mae arweinwyr a staff yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu amgylchedd tawel a gofalgar ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae staff yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion ac yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned ar draws yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn mwynhau eu dysgu ac yn ymddwyn yn eithriadol o dda.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a sicr. Mae hi wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ddiben moesol cadarn a gwerthoedd cadarnhaol. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu addysgu effeithiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai o aelwydydd incwm isel a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau.

Mae'r addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn rhannu bwriadau dysgu yn dda ac yn darparu cyfarwyddiadau clir ar gyfer disgyblion. At ei gilydd, mae cyflymdra'r dysgu yn briodol, ac mae adnoddau'n ennyn diddordeb disgyblion yn fuddiol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio technegau holi yn llwyddiannus i werthuso dealltwriaeth disgyblion neu symud y dysgu ymlaen.

**Ciplun: Datblygu dysgwyr myfyriol**

Mae athrawon wedi creu amgylchedd dysgu cadarnhaol lle caiff camdybiaethau disgyblion eu croesawu a'u gweld yn gyfleoedd ar gyfer dysgu. Mae staff yn ymatebol ac yn addasu eu haddysgu yn ystyriol i ddiwallu anghenion dysgu eu disgyblion. Er enghraifft, maent yn ailedrych ar y prif bwyntiau addysgu neu'n galw dysgu i gof o wers flaenorol, pan fydd angen. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i symud ymlaen yn eu dysgu ac yn datblygu i fod yn unigolion myfyriol sy'n meddwl yn ofalus am eu gwaith.

Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda disgyblion a'u teuluoedd i greu ymdeimlad cryf o gymuned a pherthyn i bawb. Maent yn gwrando ar farn disgyblion a'u rhieni, ac yn sicrhau eu bod yn ymateb yn ystyrlon i unrhyw bryderon neu awgrymiadau ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae barn rhieni a disgyblion wedi helpu llywio ymagwedd yr ysgol at wrth-hiliaeth a hanes pobl dduon yn y cwricwlwm. Trwy'r grwpiau arweinyddiaeth disgyblion niferus, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol ac wedi gwneud gwelliannau i'r amrywiaeth o glybiau ar ôl yr ysgol a gynigir.

**Ciplun: Perthnasoedd cryf rhwng disgyblion, ar draws yr ysgol**

Mae perthnasoedd rhwng disgyblion yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae staff yn gwerthfawrogi pwysigrwydd hyn ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion hŷn weithio gyda disgyblion iau yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn eu helpu â medrau darllen a thynnu llun neu'n eu hannog i chwarae gemau ar y maes chwarae. Maent yn dangos tosturi a charedigrwydd at ei gilydd yn gyson ac mae hyn yn cefnogi'r ethos teuluol cryf yn yr ysgol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion, ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn y maes hwn. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu. Mae arweinwyr yn adolygu hyn yn gyson ac yn cydnabod bod angen gwella cyfradd y cynnydd a wna lleiafrif y disgyblion iau. I ymateb i hynny, mae'r ysgol wedi addasu ei hymagwedd at addysgu darllen cynnar ac wedi buddsoddi mewn adnoddau newydd. Megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'i effaith. Yn uwch i fyny'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn darllen â rhuglder a dealltwriaeth dda. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn dewis manylion o fewn testun i gefnogi eu disgrifiad o bersonoliaeth cymeriad yn llwyddiannus.

Mae staff yn y dosbarth Meithrin yn darparu cyfleoedd amlsynhwyraidd buddiol i'r disgyblion ieuengaf archwilio creu marciau a datblygu rheolaeth echddygol fanwl. Fodd bynnag, mae'r drefn o ran addysgu ysgrifennu ar gyfer disgyblion iau yn aml yn rhy gyfarwyddol. Er enghraifft, mae'n cynnwys llenwi taflenni gwaith neu gopïo enghraifft yn rheolaidd. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u gwybodaeth ffoneg ddatblygol yn annibynnol. Yn uwch i fyny'r ysgol, mae athrawon yn datblygu medrau ysgrifennu disgyblion yn effeithiol trwy gyd-destun gwaith testun. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu adroddiad papur newydd difyr o'r Canol Oesoedd neu'n rhoi esboniad clir am sut mae planhigyn yn adweithio i oleuni.

Mae gan yr ysgol ymagwedd systematig at addysgu mathemateg sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 1 a 2 yn mwynhau tynnu llun eu llinellau rhif eu hunain, y maent yn eu defnyddio i nodi eilrifau neu ymarfer cyfrif bob yn 2. Erbyn iddynt gyrraedd Blynyddoedd 5 a 6, mae disgyblion yn archwilio ystod o ddulliau i ddatrys problemau rhif yn hyderus. Mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm yn dda pan roddir cyfle iddynt. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn cymhwyso'u gwybodaeth am fesurau yn effeithiol wrth ddefnyddio glaw i fesur y glawiad wythnosol yn Llanrhymni.

Mae'r ysgol yn cynnal ffocws clir ar flaenoriaethau cenedlaethol, yn cynnwys datblygu'r Gymraeg a mynd i'r afael â gofynion diwygio ADY. Mae arweinwyr yn cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn effeithiol ar draws yr ysgol. Maent yn rhoi pwyslais buddiol ar farn disgyblion a rhieni ac yn deall anghenion disgyblion unigol yn dda. O'r herwydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.

At ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn galluogi'r rhan fwyaf o'r disgyblion i wneud cynnydd cryf yn y rhan fwyaf o feysydd, gan gynnwys â datblygu eu medrau Cymraeg, corfforol a digidol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer meddwl creadigol wedi'i datblygu'n ddigonol. Ar draws yr ysgol, mae gwersi yn y celfyddydau mynegiannol a meysydd eraill y cwricwlwm yn aml yn rhy gyfarwyddol ac yn canolbwyntio'n ormodol ar y cynnyrch terfynol. O ganlyniad, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i fod yn arloesol, datblygu eu syniadau eu hunain neu fynegi eu hunain yn greadigol.

Mae arweinwyr yn dangos ymagwedd ystyriol, wedi'i chynllunio'n ofalus at ddysgu proffesiynol, ac yn sicrhau ei bod yn berthnasol ar gyfer staff. Mae'n cael ei llywio'n dda gan ddeilliannau hunanwerthusiad yr ysgol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae gan arweinwyr ymrwymiad cryf i gynorthwyo staff i ddefnyddio ymchwil berthnasol i lywio'u harfer, yn enwedig o ran addysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 2 yn adlewyrchu ymrwymiad cadarn i egwyddorion dysgu sylfaen. Mae staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wneud dewisiadau wrth iddynt gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau sydd ar gael iddynt. Mae ardal chwarae yn yr awyr agored a adnewyddwyd yn ddiweddar yn cefnogi datblygiad corfforol disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae meysydd darpariaeth barhaus i gefnogi dysgu wedi'i ysgogi gan y plentyn trwy chwarae, dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion i sicrhau bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd a ffynnu fel dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo'r disgyblion hyn i elwa ar ystod o weithgareddau cyfoethogi a thripiau ysgol gwerthfawr.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2024